
*Rhif:* ***38*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Dyfroedd arfordirol Lydstep Haven**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2023
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM38:Dyfroedd Arfordirol Lydstep Haven**



*Bae Lydstep o Drwyn Lydstep*



*Edrych tua'r dwyrain o Drwyn Lydstep i Swnt Pŷr*



*Craig Whitesheet o Drwyn Lydstep yn edrych tua'r gorllewin*

| Disgrifiad Cryno |
|---|
| Mae'r ardal wedi ei lleoli ar yr arfordir sy'n wynebu'r de i'r gorllewin o Ynys Bŷr gan redeg at Skrinkle Haven ac yn cynnwys Trwyn Lydstep. Mae'n arfordir naturiol gyda chlogwyni calchfaen ac arfordir creigiog, ac eithrio Lydstep Haven ble mae yna faes carafannau statig mawr o flaen traeth cysgodol sy'n wynebu'r dwyrain a thraeth pellennig sy'n cyferbynnu ym Mae Sandtop ar Ynys Bŷr. Mae'r mor yn teimlo'n weddol gysgodol ac mae yna gychod hamdden bach yn dod o Lydstep Haven ac o Ddinbych-y-pysgod, er bod yna lifau llanwol yn Swnt Pŷr ac mae'n cael ei drin yn ofalus. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Mae arfordir calchfaen y prif dir yn cau o amgylch y môr i'r gogledd a'r dwyrain gydag Ynys Bŷr i'r dwyrain a Swnt Pŷr rhyngddynt, a chefnen dwyrain-orllewinol nodedig i'r gogledd.<br>• Arfordir prif dir naturiol sy'n wynebu'r de ac yn wledig gan fwyaf, gyda chlogwyni calchfaen ac ymyl arfordirol bugeiliol a glaswelltir lled-naturiol.<br>• Clogwyni calchfaen dramatig a haenau fertigol, ogofau a bwâu a thraethau bach yn wynebu'r dwyrain i'r gorllewin o Drwyn Lydstep.<br>• Trwyn Lydstep gyda chlogwyni, chwarelau arfordirol a glaswelltir calchfaen.<br>• Ehangder cysgodol y traeth yn Lydstep Haven sy'n wynebu'r dwyrain gyda pharc carafannau trefnus mawr a chyfleusterau sy'n gysylltiedig.<br>• Arfordir pellennig, heddychlon ac ynysig Ynys Bŷr gydag Ynys Farged a'i anheddiad anghyfannedd.<br>• Twyni ar Drwyn Giltar a hyfforddiant milwrol Penalun i'r dwyrain.<br>• Mae dringo'n boblogaidd ar y clogwyni calchfaen o amgylch Trwyn Lydstep<br>• Traeth a reolir yn fasnachol ac sy'n cael defnydd da iawn yn Lydstep gyda chychod hamdden bach yn dod oddi yma gan gynnwys jetsgis a sgiwyr dŵr.<br>• Golygfeydd eang, heb eu difetha, allan at y môr gan gynnwys at Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint, a heb eu difetha ar hyd yr arfordir [ac eithrio at Lydstep] gan gynnwys at Ynys Bŷr ac oddi yno.<br>• Golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac at Ynys Bŷr ac oddi yno. |
| **Nodweddion Ffisegol** |
| Tua'r gogledd-ddwyrain o Skrinkle Haven mae'r arfordir sy'n wynebu o'r dwyrain i'r de yn cynnwys Calchfaen Carbonifferaidd sy'n taro dwyrain-gorllewin ac yn ffurfio clogwyni bylchog rhwng baeau danheddus, ceugrwm. Mae'r pentir 50-60m UDO, gyda rhai clogwyni serth i fertigol <50m. Mae yna welyau fertigol nodedig iawn i'r dwyrain o Drwyn Lydstep gydag ogofau, bwâu a chlogwyni serth yn cynnwys Craig Whitesheet. Mae yna bentiroedd amlwg ar Drwyn Lydstep a Thrwyn Giltar ac mae Ynys Farged yn ffurfio allgraig ddwyreiniol garw i Ynys Bŷr. Mae baeau Skrinkle Haven a Lydstep Haven yn wynebu'r dwyrain, ac mae Bae Sandtop ar Ynys Bŷr yn wynebu'r gorllewin. Mae ardaloedd rhynglanwol yn cynnwys glannau creigiog cul (60%) a baeau |

tywodlyd (40%). Mae'r arfordir Calchfaen yn agored i gyrathiad a thoddiant, yn ogystal â symudiadau hydrolig. Mae yna ogofau ar hyd yr arfordir, e.e. Trwyn Lydstep. Caiff gwaddodion eu cludo mewn baeau trwy dyniant, daliant a neidiant. Dyma arfordir ag aliniad torddwr a phrin yw'r drifft dyddodol net.

Ar lawr bas (<30m) y môr mae yna waddodion tywodlyd sy'n gorwedd dros y Calchfaen, ac mae'r oledd yn amrywio o oledd ysgafn (<1°) tu allan i'r baeau i ganolig (<10°) oddi ar yr arfordiroedd creigiog. Mae'r moroedd wedi eu cysgodi'n weddol rhag bwysau'r gwynt a'r tonnau, yn enwedig ar hyd yr arfordir sy'n wynebu'r dwyrain. Mae'r llifau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin. Yn Swnt Pŷr, mae'r llifau llanwol hyd at 3 milltir fôr. Mae llif sy'n newid gyda'r tywydd yn achosi cerrynt terfol ar y pen gorllewinol ac mae moroedd dwfn yn gallu datblygu gyda'r gwynt yn erbyn y llanw. Amrediad y llanw yw 7.7m.

Mae yna lwyfandir arfordirol sydd ychydig yn donnog tua 50mUDO gyda chefnenau a dyffrynnoedd bach olynol â chyfeiriadedd dwyrain-orllewinol yn baralel i ran ogleddol yr arfordir (mae'r tir ar oledd *tuag i lawr* i ffwrdd oddi wrth yr arfordir mewn mannau) ond yn cyrraedd yr arfordir ar ei rannau dwyreiniol yn Nhrwyn Giltar. Mae'r gefnen i'r gogledd yn cyrraedd dros 100m UDO ac yn ffurfio rhan o'r ardal gan fod yna olygfeydd clir o'r môr ac mae'n gefnlen i'r arfordir.

Mae yna lystyfiant lled-naturiol a ddominyddir gan laswelltir ar bentiroedd ac ymyl cul y clogwyn arfordirol. Mae yna lystyfiant calchaidd rhwng Skrinkle Haven a Thrwyn Lydstep gan gynnwys prysg. Mae yna dwyni tywod sy'n ymestyn o'r dwyrain yn Nhwyni Dinbych-y-pysgod arno i osodiadau/meysydd milwrol ar Drwyn Giltar. Mae caeau bugeiliol yn cyrraedd yr arfordir mewn mannau, gan gynnwys ar Ynys Bŷr, a gellir cael hyd i ffermio âr/âr cymysg ar y gwrym i'r gogledd. Yn Lydstep, mae yna goetir collddail ar y llethrau cysgodol.

Mae'r arfordir oll yn rhan o SoDdGA Twyni Dinbych-y-pysgod a Lydstep o amgylch Trwyn Lydstep ac mae'r clogwyni wedi eu dynodi'n ACA (fel rhan o Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru). Daw Swnt Pŷr ac amgylchedd gorllewinol Ynys Bŷr o dan Ardal sy'n Bwysig ar gyfer Adar Bae Caerfyrddin. Mae'r rhywogaethau adar yn cynnwys y frân goesgoch a'r hebog tramor.

**Dylanwad diwylliannol**

Ar un adeg, roedd yna fasnach calchfaen leol ac adlewyrchir hyn gan yr odynau sydd wedi goroesi, a'r chwarelau ar wyneb gogleddol Trwyn Lydstep. Yn y 19eg ganrif gynnar, roedd Tŷ Lydstep yn perthyn i deulu'r Adams o Holyland, Penfro. Cafodd ei ailfodelu a'i ymestyn ym 1894 gydag adain newydd a Chelf a Chrefft tu mewn. Mae'r 'Palas' yn dŷ Canoloesol a chyfeirir ato'n draddodiadol fel 'Man yr Arfau', a fwy na thebyg mai dyma leoliad llys maenorol Maenorbŷr a Phenalun. Efallai mai goleufa oedd y Tŵr Gwylio cyn dod yn felin wynt; adfail ydyw erbyn hyn. Ym Mhenalun, mae yna ffosydd ymarfer o'r Rhyfel Byd Cyntaf ychydig yn ôl o'r arfordir. Mae'r rhain yn ffurfio llinellau igam-ogam amlwg iawn yn y glaswelltir arfordirol.

Ni chofnodwyd unrhyw longddrylliadau yn yr ardal hon ac mae hyn yn arwydd posib o'i dyfroedd gweddol addfwyn.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE311 (crug crwn): cymuned: Cairew
- PE403 (palas Lydstep): cymuned: Maenorbŷr
- PE420 (croes y farchnad): cymuned: Dinbych-y-pysgod
- PE470 (crug crwn): cymuned: Maenorbŷr
- PE483 (ffosydd ymarfer): cymuned: Penalun

Mae'r prif aneddiadau yn Lydstep a Phenalun gydag ambell faes carafannau, y ddau wedi eu gosod yn ôl o'r arfordir gyda'r graddau helaethaf o ffurfiau adeiledig yn y maes carafannau sefydlog helaeth ym Mae Lydstep. Mae rheilffordd un trac yn rhedeg ychydig yn ôl o'r arfordir ac mae'r A4319 hefyd yn ymylu â ffiniau mewndirol yr ardal.

Daw'r defnydd dwysaf o'r traeth yn Lydstep a'r maes carafannau sy'n rheoli'r traeth cysylltiedig, mynediad a'r llithrfa. Gwelir hwylio dingis, hwylio criwser a chychod modur, gan gynnwys cychod dydd, sgiwyr dŵr a jetsgis [yn bennaf o'r traeth yn Lydstep] ar draws y bae cyfan. Mae yna angorfa fwy o faint a harbwr yn Ninbych-y-pysgod i'r gogledd a defnyddir yr ardal yn helaeth ar gyfer hwylio cyffredinol a rasys hwyliau. Mae yna lwybr mordeithio sy'n cael defnydd trwm oddi yma o amgylch yr arfordir i'r gorllewin at Aberdaugleddau ac Abergwaun, ar draws Môr

Hafren ac at bwyntiau i'r dwyrain ar draws Bae Caerfyrddin. Mae yna nifer o lwybrau draw at Iwerddon hefyd. Mae caiacio'n parhau o amgylch yr arfordir hwn. Gwelir pysgota môr, o gychod ac ar y traeth, yn Lydstep. Mae plymio a snorclo'n boblogaidd ychydig tu mewn i Drwyn Lydstep.

Gwelir meysydd pebyll a meysydd carafannau eraill yn agos at yr arfordir ac yn y gefnfro. Maen nhw'n dringo ar y clogwyni calchfaen ychydig i'r gorllewin o Drwyn Lydstep ac i'r gorllewin o Drwyn Giltar sydd hefyd yn fan poblogaidd ar gyfer gwylio bywyd gwyllt a golygfeydd ar draws y bae at Ynys Bŷr. Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhedeg ar hyd copa ymylon y clogwyni.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys casglu gwichiaid â llaw, pysgota sân ar y traeth a rhwydau traeth, rhwydau wedi eu gosod, dal cimwch a chrancod mewn potiau ac mae yna botensial ar gyfer man-dreillio estyllod. Mae'r ardal yn rhan o ardaloedd ymarfer milwrol Maenorbŷr a Phenalun.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Mae gan yr arfordir hwn undod, gyda chlogwyni calchfaen llwyd sy'n gyson weddol uchel tua 30m, gydag un traeth tywodlyd mawr a childraethau llai yn torri i mewn iddynt. Mae'r arfordir ar raddfa ganolig i fawr gyda'r pentiroedd yn Nhrwyn Lydstep a Giltar. Mae'r ddaeareg galchfaen i'r dwyrain o Skrinkle Haven yn ddramatig iawn gyda chlogwyni serth, bwâu fel drws yr eglwys ac ogofau. Mae'n teimlo'n weddol gysgodol, yn enwedig yn Lydstep Haven. Mae yna beth amrywiaeth yng ngorchudd y tir gyda glaswelltir, coed a phrysg yn erbyn y clogwyni a rhai twyni tywod i'r dwyrain.  Mae yna olygfeydd eang o'r tir allan at fôr heb darfu a heb ei ddifetha i'r de a golygfeydd at Ynys Bŷr i'r dwyrain, Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint ar ddiwrnodau clir. Gellir gweld golygfeydd gwych o Drwyn Lydstep i'r de a'r dwyrain ac mae Ynys Farged yn ffurfio proffil dramatig a diddordeb yn y morlun mewn golygfeydd o arfordir y prif dir. O'r dŵr, y nodweddion amlycaf yw Trwyn Lydstep, Trwyn Giltar, Ynys Farged a'r maes carafannau yn Lydstep. Dyma'r unig ddatblygiad arwyddocaol yn yr arfordir hwn sy'n ymddangos fel bloc trefnus o garafanau gwyn statig sy'n dringo o'r traeth i ben y clogwyni, er ei fod wedi'i fframio gan goetir. Mae gweithgarwch sylweddol yn deillio o'r datblygiad hwn yn ystod y tymor gyda'r bae yn cael ei ddefnyddio gan gychod modur swnllyd a jet-sgis.

Mae'r arfordir i'r dwyrain yn fwy heddychlon gan fod mynediad trwy lwybr troed yn unig er, fwy na thebyg y gellir clywed trenau a cheir. Byddai arfordir gorllewinol Ynys Bŷr yn heddychlon iawn ac yn teimlo'n anghysbell.  Mae'r strwythurau bach ar Drwyn Giltar a'r parciau carafannau tua'r tir yn difrïo ond nid oes modd eu gweld o'r môr. Mae yna arogl cryf o'r môr ac mae'r clogwyni creigiog a'r glaswelltir lled-naturiol ar hyd yr arfordir yn rhoi ymdeimlad naturiol.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden morol a hamdden traeth, at dreftadaeth naturiol ar ffurf arfordir heb ei ddifetha mewn mannau a buddion gwarchod natur, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â nodweddion hanesyddol a chysylltiad gyda natur ar hyd yr arfordir hwn sy'n arbennig o odidog o amgylch Trwyn Lydstep ac Ynys Bŷr.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog. Drifft gwaddodion cyfyngedig. Yn gyffredinol, mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd' ond 'dal y llinell' yn lleol yn Lydstep Haven.

Datblygiadau carafanau a gwersylla.

Pwysau ymwelwyr yn Skrinkle Haven a Thrwyn Lydstep yn cynnwys treulio yn ardaloedd y meysydd parcio a'r llwybrau mynediad gerllaw at y traeth neu'r clogwyni a Llwybr yr Arfordir.

Y defnydd o Lwybr yr Arfordir gan gynnwys sathru ar gopa clogwyni ar laswelltir calchfaen.

Treulio'n amlwg ar glogwyni trwy ddringo (Trwyn Lydstep).

Newid o ffermio bugeiliol i ffermio âr yn arwain at ddwysâd gydag effeithiau posib ar gymeriad, patrwm a chadwraeth natur.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| Rhinweddau Arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysblander yr Arfordir** | | ■ | | ■ | ■ | | ■ |
| **Ynysoedd** | | ■ | | ■ | | | |
| **Amrywiaeth y Tirlun** | | | | | | ■ | |
| **Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch** | | ■ | | ■ | ■ | | ■ |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | ■ | ■ | | | ■ | |
| Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | ■ | |
| Mynediad i'r Parc | ■ | | | | | ■ | |
| Lle i Anadlu | | ■ | | ■ | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Arfordir prif dir naturiol sy'n wynebu'r de ac yn wledig yn bennaf gyda chlogwyni calchfaen ag ymyl arfordirol bugeiliol a glaswelltir lled-naturiol.

Trwyn Lydstep gyda chlogwyni dramatig a haenau fertigol a glaswelltir calchfaen.

Arfordir pellennig, heddychlon ac ynysig Ynys Bŷr gydag Ynys Farged a'i anheddiad diffaith.

Golygfeydd eang, heb eu difetha allan at y môr yn cynnwys y rhai at Ynys Wair ac Arfordir Gogledd Dyfnaint, ac ar hyd yr arfordir gan gynnwys y rhai at Ynys Bŷr ac oddi yno.

Golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac at Ynys Bŷr ac oddi yno.

Presenoldeb Parc Gwyliau Traeth Lydstep gyda maes carafannau mawr trefnus cysylltiedig a chyfleusterau.

Presenoldeb jetsgis a sgiwyr dŵr yn gostwng yr ymdeimlad heddychlon.

Presenoldeb hyfforddiant milwrol Penalun i'r dwyrain.

A4319 a rheilffordd yn gostwng yr ymdeimlad heddychlon.